# JONES, DAVID MORRIS (1887 - 1957), gweinidog (MC) ac Athro

**Enw:** David Morris Jones
**Dyddiad geni:** 1887
**Dyddiad marw:** 1957
**Priod:** Esther Ann Jones (née Williams)
**Rhiant:** Elisabeth Jones
**Rhiant:** William Maurice Jones
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog (MC) ac Athro
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Addysg
**Awdur:** Gomer Morgan Roberts

Ganwyd 14 Mawrth 1887 ym Maes-y-groes, Maenan, Sir Gaernarfon, mab William Maurice ac Elisabeth Jones. Addysgwyd ef yn ysgol elfennol ac ysgol rad Llanrwst, Coleg y Brifysgol, Bangor (lle graddiodd gydag anrhydedd mewn Cymraeg ac athroniaeth), Coleg y Bala, a Chaergrawnt. Ymunodd â'r fyddin yn 1915, ond galwyd ef adref o Salonica yn 1916 i gael comisiwn fel caplan i'r catrodau Cymreig yn Ffrainc; ac ordeiniwyd ef yr un flwyddyn. Enillodd yr M.C. am wrhydri wrth roi ymwared i glwyfedigion. Bu'n weinidog yng Ngorffwysfa, Sgiwen (1920-24), Blaenau Ffestiniog (1924-29), a'r Triniti, Abertawe (1929-34). Penodwyd ef yn Athro Athroniaeth Crefydd a hanes crefyddau yng Ngholeg Diwinyddol Aberystwyth, a bu yno hyd ei ymddeoliad yn 1953. Priododd, 1916, Esther Ann Williams, Pwllheli, a ganwyd iddynt ddau fab a dwy ferch. Bu farw 8 Hydref 1957, ac yntau'n llywydd Sasiwn y De ar y pryd.

Yr oedd yn ysgolhaig trwyadl. Bu'n llywydd adran diwinyddiaeth Urdd Graddedigion Prifysgol Cymru, ac ef oedd golygydd cyntaf y cylchgrawn *Diwinyddiaeth*. Traddododd y Ddarlith Davies yn 1953 ar y testun ' Duw y creawdwr a Duw y gwaredwr ', ond nis cyhoeddodd. Cyhoeddodd dair cyfrol yn ei ddydd, sef *Efengyl Ioan a'i Hystyr* (1944), esboniad ar yr epistol cyntaf at y Corinthiaid (1952), a *Llên a dysgeidiaeth Israel hyd gwymp Samaria* (1929).

## Awdur

**Y Parchedig Gomer Morgan Roberts**, (1904 - 1993)

## Ffynonellau


*Y Drysorfa*, Ebrill 1957

*Y Goleuad*, 16 Hydref 1957

*Blwyddiadur y Methodistiaid Calfinaidd*, 1959, 266-67

gwybodaeth gan ei ferch, Buddug Morris Jones, Llundain, Llundain


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20804676


**Dyddiad cyhoeddi:** 1997



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu